# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL CARTREFI GWYLIAU (AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU)

## ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AC ARGYMHELLION Y SWYDDOG

CYNGOR GWYNEDD

MEHEFIN 2025

## Cynnwys

1.0 CEFNDIR3

Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)3

Y Cyd-destun Polisi3

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol3

Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol 4

2.0 YMRWYMIADAU CYNLLUNIO44

Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus4

## 1.0 CEFNDIR

**Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

1.1 Pwrpas y CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Y Cyd-destun Polisi**

Y Cynllun Datblygu Lleol

1.3 Yn unol â deddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dynodiadau ar gyfer defnyddiau tir penodol megis, tai, cyflogaeth a manwerthu; mae'n cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:

- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

**Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol**

1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cyngor yn paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Bydd y CCA yn cefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o

bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

1.6 Mae'n bwysig nodi fod y CCA hyn yn berthnasol i ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd yn unig.

**Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol**

1.7 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn rhoi pwysau ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd nac yn addasu polisïau sy'n bodoli eisoes.

1.8 Felly, cyn gynted ag y bydd CCA wedi'u mabwysiadu, dylid rhoi pwys sylweddol arnynt fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CCA RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL CARTREFI GWYLIAU (AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU TYMOR BYR)

2.1 Bwriad y Canllaw Cynllunio Atodol yma yw rhoi ychwaneg o eglurder parthed y math o wybodaeth a thystiolaeth a ddylid ei gyflwyno mewn perthynas â cheisiadau sydd yn benodol ymwneud a newid defnydd tai i ddefnydd cartrefi gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr). Mae'r angen i baratoi'r CCA hyn yn deillio o'r newidiadau deddfwriaethol sydd wedi ei ymgymryd i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) a'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Hawliau Datblygu a Ganiateir) ynghyd a chyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

**Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus**

2.2 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Chwefror 2025. Paratowyd y ddogfen drafft hon mewn ymgynghoriad â swyddogion mewnol perthnasol yr Awdurdod. Cyn hynny, cafodd y CCA ei adolygu gan y Gweithgor Polisi Cynllunio ar 22 Tachwedd 2024 ac yna yn y cyfarfod dilynol ar 18 Rhagfyr 2024.

2.3 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o chwe wythnos rhwng 24 Chwefror hyd at 7 Ebrill 2025.

2.4 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y Cyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn

y CCA.  Roedd copïau caled o'r CCA ar gael i'w archwilio yn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol y sir ac yn Siop Gwynedd (Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli).

2.5 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:

- Ffurflen ar lein (Limesurvey)
- Ffurflen bapur;
- E-byst; a
- Llythyr

2.6 Derbyniwyd cyfanswm o 28 o sylwadau dilys gan 24 ymatebydd gwahanol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd.

2.7 Mae'r adran ganlynol (Atodiad 1) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad a dderbyniwyd.  Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **<u>ffont drom wedi'i thanlinellu</u>**.

2.8 Yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC sy'n cael ei gweithredu yn y DU drwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni, mae Asesiad Sgrinio wedi'i baratoi ac roedd yn rhan o'r pecyn dogfennau a ffurfiodd yr ymgynghoriad. Gellir dod o hyd i'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr Asesiad Sgrinio ac Ymateb y Swyddogion i'r sylwadu hynny yn Atodiad 2.

2.9 Mae'n ofynnol fod y Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig.  Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da.  Rhaid felly ymgymryd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

2.10 Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.11 Ymhellach, yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a ddaeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut gall penderfyniadau strategol, gan gynnwys gosod amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, leihau anghydraddoldebau o safbwynt y canlyniad i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

2.12 I'r perwyl hwn mae yna gwestiynau penodol wedi cael ei ofyn o fewn yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd yn cyfarch y gofynion hyn. Gweler yr atodiadau canlynol ar gyfer y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus ar yr agweddau canlynol:-

- Asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig (Atodiad 2)
- Nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig (Atodiad 3)
- Ystyried Effaith ar y Gymraeg (Atodiad 4)

- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Atodiad 5)

**ATODIAD 1: Sylwadau a dderbyniwyd ar y CCA yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus**

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| P1.S1 | Stephanie O'Neil | Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Gwrthwynebu | Mae'n groes i'n hawliau dynol i gyfyngu ar newid defnydd eiddo ar ôl iddo gael ei brynu heb unrhyw rwystr. Er enghraifft, os ydym yn dymuno gwerthu, dylem fod a'r hawl i wneud yr hyn rydym yn dymuno ei wneud i ein cartref a brynwyd mewn ewyllys da ac i'w werthu i bwy bynnag y mynnem. Wedi'r cyfan ein tŷ ni ydyw, nid rhan o stoc dai Cyngor Gwynedd. Eich stoc dai yw'r cartrefi cyngor rydych chi'n berchen arnynt, nid fy eiddo. | Credaf fod newid defnydd o'r fath yn ffaith faterol ac felly fe ddylid ei gymhwyso i dai newydd a adeiladwyd ers i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 gael ei weithredu, a'i ddefnyddio mewn modd tebyg i Adran 106.<br><br>Byddai hynny'n golygu fod elwa yn y dyfodol yn cael ei gyfyngu heb niweidio gwerth cartrefi pobl yn yr un modd a beth mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei wneud. | Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol. Mae'r sylw yn ymwneud ag egwyddor y Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>Argymhelliad - Dim newid. |
| P2.S1 | John Moss | Adran 6 | Gwrthwynebu | Nid yw eiddo sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau gwledig anghysbell yn cael eu ffafrio gan deuluoedd lleol (yn enwedig cyplau ifanc gyda phlant) gan nad ydynt yn gyfleus ar gyfer ysgolion, siopau | Dylai unrhyw eiddo sydd wedi ei leoli mewn ardal wledig ac sydd heb ei werthu ar ôl 6 mis ar y farchnad, dderbyn caniatâd cynllunio i'w werthu fel ail gartref a llety gwyliau tymor byr. | Nodi'r sylw. Nid yw'r fframwaith bolisi presennol yn caniatáu rhoi'r hyblygrwydd i gynnwys arweiniad o ran eithriadau wrth asesu ceisiadau cynllunio fel y awgrymir. Mae'n ofynnol fod yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw yn cydymffurfio |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ac ati. Dyma pam roedd llawer yn adfeiliedig cyn i berchnogion ail gartrefi eu hadnewyddu ac yn hanesyddol maent ond yn apelio fel llety gwyliau tymor byr neu ail gartrefi. | | gyda'r arweiniad polisi cynllunio lleol fel y cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P3.S1 | Stuart Rudlin | - | Gwrthwynebu | [Dim wedi ei nodi] | [Dim wedi ei nodi] | Nodi'r gwrthwynebiad cyffredinol.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P4.S1 | Glenis Bisson | 12.14 | Gwrthwynebu | Ni ddylai defnydd cymysg C3/C6 fod angen caniatâd cynllunio. Nid yw preswylwyr yn cymryd tai allan o'r stoc dai. | Dylid caniatáu defnydd cymysg heb yr angen i dderbyn caniatâd cynllunio gan NA fyddai'n cydymffurfio a'r erthygl 4 gan ei fod yn rhentu am gyfnod byr. Mae'r Cyngor a'r Senedd wedi gorgyrraedd ei hawdurdod. | Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol. Mae'r sylw yn ymwneud ag egwyddor y Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P5.S1 | Susan Roberts | Polisi TAI 5 | Gwrthwynebu | Cyfyngiadau mwy caeth | [Dim wedi ei nodi] | Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P6.S1 | James Woodcock | Adran 8, para 8.6 | Gwrthwynebu | Mae Polisi TAI 7 yn ffafrio trosi adeiladau | Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi'r prif fyrdwn y CCA | Nodi'r sylw. Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (Partneriaeth Dyffryn Peris) | | | traddodiadol y tu allan i aneddiadau yn llety gwyliau yn hytrach na thai fforddiadwy i bobl leol mewn lleoliadau sy'n cefnogi cymunedau lleol. Dylid defnyddio'r CCA hwn i leihau'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyfiawnhau mwy o gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol i bobl leol | o ddarparu canllawiau i atal newid defnydd o dai i ail gartrefi a llety gwyliau. Ond ddylai'r CCA ddweud bydd cynigion teg i drosi adeiladau traddodiadol i dai fforddiadwy i bobl leol yn cael eu caniatáu hyd yn oed yn y cefn gwlad. Felly ddylai'r cyfrifoldeb fod ar y Cyngor i gyfiawnhau defnydd masnachol yn hytrach nag ar y darpar ddatblygwr. | a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol.<br><br><u>Argymhelliad</u> - Dim newid |
| P7.S1 | Alan Parry | - | Cefnogi | *[Dim wedi ei nodi]* | *[Dim wedi ei nodi]* | Nodi'r gefnogaeth gyffredinol.<br><br><u>Argymhelliad</u> - Dim newid |
| P8.S1 | Cyngor Tref Cricieth | - | Gwrthwynebu | Mae'r ymgynghoriad yn anodd a chymhleth ac yn anodd dilyn a deall y meini prawf. Mae'r ddogfennaeth yn rhy dechnegol sydd yn fater o bryder o ran cyfathrebu effeithiol gyda'r cyhoedd yn gyffredinol. | *[Dim wedi ei nodi]* | Gwerthfawrogir fod y ddogfen yn ymddangos yn gymhleth ac yn dechnegol. Mae pob ymdrech wedi ei wneud i geisio symleiddio'r arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw. Mae'r pwnc yn un technegol ac mae'n anorfod gan hynny ei fod yn mynd i fod yn gymharol gymhleth. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Argymhelliad - Dim newid |
| P9.S1 | Mike Stevens | Cyffredinol | Gwrthwynebu | Mae'r sylw yn trafod diffygion polisïau sy'n ymwneud ag ail gartrefi, llety gwyliau, a datblygiad tai yng Ngwynedd. Mae ymagwedd y Cyngor at bremiwm treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei feirniadu, gan ddadlau nad yw wedi datrys yr argyfwng tai i bobl leol, yn enwedig prynwyr tro cyntaf. Er gwaethaf ail gartrefi yn dod ar y farchnad, mae prisiau wedi gostwng, ac mae pobl ifanc yn dal i fethu â fforddio cartref. Mae'r polisi yn cael ei ystyried yn niweidiol i dwristiaeth.<br><br>Mae rheoliadau cynllunio aneffeithiol, diffyg cyflymder datblygu tai, a pholisïau hen sy'n rhwystro adeiladu tai hefyd yn | *[Dim wedi ei nodi]* | Nodi'r sylw. Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cael eu beirniadu. Mae yna feirniadaeth o ddiffyg uchelgais, cynllunio gwael, a diffyg parodrwydd Cyngor Gwynedd i newid. Mae ffocws y cyngor ar "dai fforddiadwy" yn golygu fod ceisiadau yn cael eu gwrthod. Ymhellach mae diffyg datblygiad tai yn Nhywyn gan nad yw'r ffiniau datblygu wedi cael eu hadolygu ers degawdau.<br><br>Y nod yw mynd i'r afael â'r prinder tai, cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith, a gwella'r economi leol drwy annog mwy o ddatblygiadau tai a gwell defnydd o eiddo presennol.<br><br>Er mwyn annog datblygu cynaliadwy yng Ngwynedd mae angen ymdriniaeth fwy deinamig ar gyfer tai gan | | |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gynnwys polisïau mwy clir o ran trethi ac adolygu rheoliadau cynllunio sydd wedi dyddio. | | |
| P10.S1 | Katie Proctor | Adran 7 | Gwrthwynebu | Mae'r rheolau arfaethedig yn nodi mai'r maen prawf ar gyfer hyn yw os ydi'r defnydd gwyliau yn "hyfyw", ac os felly, ni chaniateir. Ni chaniateir unrhyw gais os yw 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, gan fod hyn yn cael ei ystyried fel arwydd o hyfywedd ariannol. Mae hefyd yn angenrheidiol marchnata'r eiddo am gyfnod sydd yn o leiaf 12 mis fel llety gwyliau cyn rhoddi unrhyw ystyriaeth i a ellir ei newid i ddefnydd C5. Credwn fod hyn yn anghywir ar sawl | Dylai'r diffiniad o "hyfyw" gynnwys hyfywedd ariannol, ni ddylai hyn fod yn dybiedig pan gyflawnir 182 diwrnod o osod ar hyn o bryd. Dylid dileu'r gofyniad i fod wedi marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel llety gwyliau. | Mae hyfywedd mewn perthynas â'r rheol 182 yn ymwneud a phoblogrwydd/galw am y llety gwyliau tymor byr nid ei hyfywedd ariannol.<br><br>Pwrpas cynnwys y cyfyngiadau yw sicrhau nad yw unrhyw lety gwyliau tymor byr llwyddiannus sy'n bodloni'r galw yn cael eu colli i ddefnydd amgen. Ar ben hynny, rhaid pwysleisio y gall llety gwyliau tymor-byr (dosbarth defnydd C6) nad ydynt wedi'u cyfyngu ar gyfer y defnydd penodol trwy amod cynllunio, newid defnydd i fod yn brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) fel datblygiad a ganiateir, felly, mae defnydd arall yn bosibl heb yr ofyniad i wneud cais am ganiatâd cynllunio. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfrif. Yn gyntaf, proffildeb, nid nifer y diwrnodau a osodwyd sydd yn cynrychioli a yw llety gwyliau yn "hyfyw". Mae'r gofyn i farchnata'r uned am 12 mis fel llety gwyliau, ac yn ystod y cyfnod hynny mae'n anochel na fyddai'r 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni a chan hynny fe fydd yna gost sylweddol gysylltiedig, yn fesur cosbi a fydd yn achosi caledi sylweddol. O ystyried nad oes unrhyw warant ar ddiwedd y broses hon y caniateir i'r eiddo drosglwyddo i C5, mae hyn yn gosod gofyn afrealistig ar unrhyw eiddo C6. Mewn gwirionedd, bydd angen i | | Awgrymir bod eglurder pellach yn cael ei gynnwys yn y CCA, gan fanylu ar y gofyniad i ddiogelu llety twristiaeth bresennol yn unol â'r arweiniad a ddarperir ym Mholisi Strategol PS14: Economi Ymwelwyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br><u>Argymhelliad</u> -Diwygio paragraff 7.6 o'r Canllaw Cynllunio Atodol fel a chanlyn:-<br><br>*"7.6 Mae llety gwyliau tymor byr yn darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi economi ymweld yr ardal.* ***<u>Mae maen prawf 5 o Bolisi Strategol 14: Yr Economi Ymwelwyr (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn) yn nodi y dylid atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar y cyfleuster twristiaeth.</u>*** *Dylid gan hynny ystyried os yw defnydd y llety gwyliau yn hyfyw ac yn* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | berchnogion eiddo C6 sy'n dymuno gwerthu buddsoddi digon o arian i dalu costau'r eiddo sy'n cael ei farchnata am 12 mis cyn gwybod a ellir ei werthu fel defnydd C5.<br><br>Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn atal perchnogion llety gwyliau C6 rhag defnyddio'r eiddo eu hunain rywfaint o'r amser (a fyddai'n ddefnydd cymysg C6/C5) neu os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu fel llety gwyliau, cadw'r eiddo fel ail gartref (sef C5). Y goblygiad felly yw y bydd angen i berchennog gosod gwyliau C6 werthu'r eiddo os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu. Mae llawer o eiddo llety gwyliau yn rhai sydd | | *cyfrannu tuag at ddiwallu'r galw."* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi bod yn y teuluoedd ers cenedlaethau. Mae gorfodi'r rhain i gael eu gwerthu pan fydd perchennog y busnes yn ymddeol yn ganlyniad gwyrdroëdig a fydd yn niweidiol i lawer o fusnesau teuluol Cymru. | | |
| P11.S1 | Cyngor Tref Abermaw | Adran 5 | Gwrthwynebu | Nid yw'r newid defnydd o C3 i C6 yn colli stoc dai parhaol. Mae'r eiddo yn parhau i fod ar gael i'w ddefnyddio fel tai parhaol ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Caniateir symud o C6 i C3 felly gellir ei wneud yn syml a heb ganiatâd cynllunio. Felly, ni ddylid defnyddio'r datganiad hwn fel gwrthodiad blanced i ganiatáu unrhyw newid o C3 i C6.<br><br>Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r newidiadau defnydd eraill sy'n symud o C3 i | Dileu'r paragraffau presennol sy'n honni bod symud o C3 i C6 yn colli stoc tai parhaol, a chyfeirio tuag at gymalau eraill fel amodau ar gyfer cymeradwyo newid defnydd. Yn berthnasol i adrannau 5 a 6 hefyd. | Mae cyflwyno'r Cyfarwyddwyd Erthygl 4 yn galluogi rheoli'r defnydd a wneir o dai mewn modd nad oedd yn bosib yn flaenorol. Drwy gyflwyno cais cynllunio newid defnydd (C3 i C6) yn dangos fod yna fwriad defnyddio'r uned ar gyfer y defnydd llety gwyliau tymor byr (C6). Cydnabyddir fod posib newid defnydd o C6 i C3 heb yr angen i gyflwyno cais cynllunio, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r defnydd yma'n digwydd. Gan hynny ni ellir cynnwys fel y stoc dai parhaol gan efallai na fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y defnydd hynny fyth yn y dyfodol. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | C5 neu ddefnydd cymysg. Hefyd C5 i C6. | | Argymhelliad – Dim newid |
| P11.S2 | Cyngor Tref Abermaw | Adran 7 | Gwrthwynebu | Bydd canran yr ail gartrefi a'r llety gwyliau tymor byr yn amrywio yn ôl ardal. Mewn ardal sydd ag economi ymwelwyr cryf bydd yna ganran uwch o lety gwyliau wedi'u dodrefnu gan fod y rhain yn hanfodol i'r economi leol. Dylai'r ganran gael ei bennu gan y Cyngor Tref neu Gymuned, nid yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd cyfradd blanced yn annog mwy o ail gartref mewn ardaloedd cyfagos i fannau poblogaidd presennol gan ledaenu'r materion ymhellach yn hytrach na'u | Amrywio'r trothwy canrannol i adlewyrchu'r gymuned leol a'r economi dim cael cyfradd blanced ar draws y sir gyfan. Ychwanegwch gymhariaeth ag anghenion tai lleol i'r CCA. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio tai nad ydynt yn diwallu anghenion tai lleol yn broffidiol yn yr ardal sydd o fudd i'r economi a'r gymuned leol. | Mae'r trothwy canrannol sydd wedi ei osod yn cyd-fynd gyda'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid presennol a chan hynny yn sicrhau cysondeb wrth asesu ceisiadau cynllunio.<br><br>Pwysleisir fod yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw o ran yr ystyriaethau perthnasol wrth ystyried priodoldeb newid defnydd llety gwyliau (Dosbarth defnydd C6) i ail gartref (dosbarth defnydd C5) yn ceisio cyd-nabod y ffaith fod llety gwyliau llwyddiannus yn cyfrannu tuag at gynnal economi twristiaeth gynaliadwy. Ymhellach fe geisir sicrhau fod yna fesurau mewn lle er ceisio annog defnydd prif fan preswyl (hawl datblygu a ganiateir i newid i ddefnydd C3) er mwyn ymateb i'r argyfwng tai lleol a diwallu'r angen lleol am dai. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys o fewn ardal gymharol fach.<br><br>Nid yw'r amodau yn y Canllaw yn ystyried yr angen tai lleol. Os yw'r angen tai lleol yn bennaf ar gyfer tai 2/3 ystafell wely ym mandiau Treth Cyngor A-D, yna nid yw tai mwy (>4 ystafell wely neu fand F ac uwch) yn tynnu tai angen lleol a dylid eu hystyried yn fwy ffafriol ar gyfer symud o Ddosbarth Defnydd C3 i C5 neu C6. Mae'r tai hyn yn aml yn fawr ac yn ddrud i'w rhedeg felly nid ydynt yn addas ar gyfer defnydd lleol oherwydd costau ynni. | | Argymhelliad – dim newid |
| P12.1 | Deborah Lumley | | Sylw cyffredinol | Rwyf wedi byw yn fy nhŷ ers bron i 39 mlynedd, ac wedi magu fy nheulu a 2 o blant ac wedi gweithio yn lleol.<br><br>Mae fy mhlant wedi cael eu haddysgu yn yr ardal | Pan mae pobl leol yn gwerthu tai pam ddylen nhw orfod gwneud cais cynllunio a thalu 2 a ½ gwaith y dreth gyngor tra bo'r tŷ ar y farchnad. Fy nealltwriaeth i yw os ydych chi'n rhoi eich tŷ ar y farchnad rydych yn cael | Nid yw'r sylw sydd wedi ei dderbyn yn ymwneud a chynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ac mae'r ddau yn siarad Cymraeg.<br><br>Rwyf wedi cael salwch ac wedi cael trafferth yn y tŷ rydyn ni'n byw ynddo yn ddiweddar gan nad oes gennym doiled i lawr y grisiau.<br><br>Fel preswylydd parhaol tymor hir, mae fy ngŵr a minnau’n teilo y byddwn yn cael ein cosbi pan ddaw i werthu oherwydd materion iechyd i brynu cartref sydd yn fwy addas yn ein henaint i’r dyfodol. | cyfnod gras 12 mis ond rwy'n credu y dylai fod nes bod yr eiddo yn gwerthu, mae'n anodd i breswylydd parhaol sy'n gorfod ceisio gwerthu eiddo yn yr hinsawdd bresennol heb y pryder diangen hwn hefyd. | |
| P13.1 | Alan Williams | - | Cefnogi | Rhaid ei weithredu er mwyn cefnogi hawl pobl ifanc i fyw yn eu cymuned eu hunain. | *[Dim wedi ei nodi]* | Nodi’r sylw o gefnogaeth.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P14.S1 | Emyr Glyn Williams | Adran 7 | Gwrthwynebu | Mae'r rheolau arfaethedig yn nodi mai maen prawf ar gyfer hyn yw a yw'r gosodiad gwyliau yn "hyfyw", ac os felly, ni chaniateir | Dylai'r diffiniad o "hyfyw" gynnwys un ariannol ac nid yw hyn yn tybio yn achos eiddo sy'n cyflawni 182 diwrnod o osod ar hyn o bryd. Dylid dileu'r | Mae hyfywedd mewn perthynas â'r rheol 182 yn ymwneud a phoblogrwydd/galw am y llety gwyliau tymor byr nid ei hyfywedd ariannol. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | newid defnydd. Ni chaniateir unrhyw gais os yw 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, gan fod hyn yn cael ei ystyried fel arwydd o hyfywedd ariannol. Byddai hefyd wedi bod yn angenrheidiol marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau cyn i unrhyw ystyriaeth gael ei wneud a ellir ei newid i C5. Credwn fod hyn yn ddim yn deg ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, mae'n broffidioldeb, nid nifer y diwrnodau a adawyd, sy'n cynrychioli a yw gosodiad gwyliau yn "viable". Ni ddylid dosbarthu gwyliau sy'n digwydd cael ei osod am 182 diwrnod ond sy'n gwneud ychydig neu ddim elw yn awtomatig fel "viable". Rydym o'r farn bod gorfod marchnata'r eiddo am | gofyniad i fod wedi marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau. | Pwrpas cynnwys y cyfyngiadau yw sicrhau nad yw unrhyw lety gwyliau tymor byr llwyddiannus sy'n bodloni'r galw yn cael eu colli i ddefnydd amgen. Ar ben hynny, rhaid pwysleisio y gall llety gwyliau tymor-byr (dosbarth defnydd C6) nad ydynt wedi'u cyfyngu ar gyfer y defnydd penodol trwy amod cynllunio, newid defnydd i fod yn brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) fel datblygiad a ganiateir, felly, mae defnydd arall yn bosibl heb yr ofyniad i wneud cais am ganiatâd cynllunio.<br><br>Awgrymir bod eglurder pellach yn cael ei gynnwys yn y CCA, gan fanylu ar y gofyniad i ddiogelu llety twristiaeth bresennol yn unol â'r arweiniad a ddarperir ym Mholisi Strategol PS14: Economi Ymwelwyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 12 mis fel gosodiad gwyliau, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n anochel na fydd 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ac felly bydd costau sylweddol yn cael eu codi, yn fesur cosbi a fydd yn achosi caledi sylweddol. O ystyried nad oes unrhyw warant ar ddiwedd y broses hon y caniateir i'r eiddo drosglwyddo i C5, mae hyn yn gosod bar afrealistig ar unrhyw eiddo C6. Mewn gwirionedd, bydd angen i berchnogion eiddo C6 sy'n dymuno gwerthu buddsoddi digon o arian i dalu costau'r eiddo sy'n cael ei farchnata am 12 mis cyn gwybod a ellir ei werthu fel C5. Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn atal perchnogion gosod gwyliau C6 rhag defnyddio'r eiddo eu hunain rywfaint o'r | | Argymhelliad - Diwygio paragraff 7.6 o'r Canllaw Cynllunio Atodol fel a chanlyn:- <br><br> *"7.6 Mae llety gwyliau tymor byr yn darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi economi ymweld yr ardal.* ***Mae maen prawf 5 o Bolisi Strategol 14: Yr Economi Ymwelwyr (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn) yn nodi y dylid atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar y cyfleuster twristiaeth.*** *Dylid gan hynny ystyried os yw defnydd y llety gwyliau yn hyfyw ac yn cyfrannu tuag at ddiwallu'r galw."* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | amser (a fyddai'n ddefnydd cymysg C6/C5) neu os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu fel gosodiad gwyliau, cadw'r eiddo fel ail gartref (sef C5). Y goblygiad felly yw y bydd angen i unrhyw berchennog gosodiad gwyliau C6 werthu'r eiddo os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu. Mae llawer o eiddo gosod gwyliau yn rhai sydd wedi bod mewn teuluoedd ers cenedlaethau. Mae gorfodi'r rhain i gael eu gwerthu pan fydd perchennog y busnes yn ymddeol yn ganlyniad gwyrdroëdig a fydd yn niweidiol i lawer o fusnesau teuluol Cymru. | | |
| P14.S2 | Emyr Glyn Williams | C5/C6 to C3 | Sylw cyffredinol | Mi gefais siawns i osod y tŷ llawn amser am flwyddyn ond pam wnes ymholiadau dwedodd Cyngor Gwynedd wrthyf | Mi ddylai tai oedd yn C5/C6 cyn Medi 2024 gael yr hawl i newid yn ôl ac ymlaen i C3 efo'r amod | Nid yw'r pryder sydd wedi ei fynegi yn fater i'r Canllaw Cynllunio Atodol. Mae'r hyn a geisir yn cael ei reoli drwy'r |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | os fuaswn yn gwneud hynny mi fuasai y tŷ yn C3 wedyn ac ni fuaswn yn cael mynd i aros ynddo fy hyn na ei osod allan byth eto. Mae teulu lleol wedi colli allan yn y fan hyn. | bod y perchennog ddim yn newid. | drefn o weithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |
| P15.S1 | Gareth Lloyd | Gwrthwynebu | Y ddogfen gyfan | Rwyf yn gwrthwynebu'r rheoliadau hyn i gyd, nid ydynt yn angenrheidiol, maent yn wrth-Seisnig, wrth-twristiaeth a gwrth-fusnes. Mae'n eithriadol o niweidiol ac yn achosi rhaniadau yng Nghymru. Mae hyn oll yn debyg iawn i Brexit a gostiodd £1.1 biliwn mewn refeniw colledig yng Nghymru dros cyfnod y dair mlynedd cyntaf. Mae'r gofynion polisi hyn yn bwylltrais a nid yw'n angenrheidiol. Dylid cael gwared ar y nonsens llwyr hyn ac yn ei le adeiladu tai, caniadau hawl cynllunio ar gyfer tai newydd ac | Cael gwared ar y nonsens llwyr yma. | Prif bwrpas y CCA yw darparu arweiniad pellach yn dilyn gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Ystyrir ei bod yn angenrheidiol egluro'r safbwynt polisi cynllunio lleol drwy'r CCA.<br><br>Argymhelliad - Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | annog busnesau a thwristiaeth. Rydych chi’n peryglu fethdaliad, mae’r holl beth yn wallgofrwydd. | | |
| P16.S1 | Janine Dow | Adran 7 | Gwrthwynebu | *[Dim wedi ei nodi]* | Dylai'r diffiniad o "hyfyw" gynnwys un ariannol ac nid yw hyn yn tybio yn achos eiddo sy'n cyflawni 182 diwrnod o osod ar hyn o bryd. Dylid dileu'r gofyniad i fod wedi marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau. | Mae hyfywedd mewn perthynas â'r rheol 182 yn ymwneud a phoblogrwydd/galw am y llety gwyliau tymor byr nid ei hyfywedd ariannol.<br><br>Pwrpas cynnwys y cyfyngiadau yw sicrhau nad yw unrhyw lety gwyliau tymor byr llwyddiannus sy'n bodloni'r galw yn cael eu colli i ddefnydd amgen. Ar ben hynny, rhaid pwysleisio y gall llety gwyliau tymor-byr (dosbarth defnydd C6) nad ydynt wedi'u cyfyngu ar gyfer y defnydd penodol trwy amod cynllunio, newid defnydd i fod yn brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) fel datblygiad a ganiateir, felly, mae defnydd arall yn bosibl heb yr ofyniad i wneud cais am ganiatâd cynllunio. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Awgrymir bod eglurder pellach yn cael ei gynnwys yn y CCA, gan fanylu ar y gofyniad i ddiogelu llety twristiaeth bresennol yn unol â'r arweiniad a ddarperir ym Mholisi Strategol PS14: Economi Ymwelwyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br>Argymhelliad -Diwygio paragraff 7.6 o'r Canllaw Cynllunio Atodol fel a chanlyn:-<br><br>*"7.6 Mae llety gwyliau tymor byr yn darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi economi ymweld yr ardal.* ***Mae maen prawf 5 o Bolisi Strategol 14: Yr Economi Ymwelwyr (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn) yn nodi y dylid atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar y cyfleuster twristiaeth.*** *Dylid gan hynny ystyried os yw defnydd y llety gwyliau yn hyfyw ac yn* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *cyfrannu tuag at ddiwallu'r galw."* |
| P17.S1 | Dylan Bryn Roberts | - | Cefnogi | Rydym yn cefnogi'r canllaw cynllunio atodol: rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau fel ymdrech cwbl briodol i geisio rheoli graddfa a maint mannau preswyl o'r math hwn oherwydd eu heffaith negyddol ar brisiau cyfartalog tai yn y pentrefi/trefi/sir. Mae'n ymdrech ddiffuant i geisio taclo'r argyfwng tai sydd eisoes wedi amlygu nad yw 65% o holl drigolion preswyl sir Gwynedd yn gallu fforddio prynu ty ar y farchnad agored. | *[Dim wedi ei nodi]* | |
| P18.S1 | Fiona Hampton | Adran 4 | Gwrthwynebu | *[Dim wedi ei nodi]* | Mae'r polisi hyn yn golygu na fydd byth fodd i newid defnydd prif dŷ (C3) i lety gwyliau, ta waeth beth yw'r angen lleol. Credaf y dylid fod yna hyblygrwydd | Rhaid i'r canllawiau a ddarperir yn y CCA gydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae meini prawf iii Polisi TWR 2 yn |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | a bod yna achos i'w wneud dros angen lleol penodol, hyn hytrach na'i gwrthod yn gyfan gwbl. Mae yna nifer o resymau pam na fyddai eiddo yn addas ar gyfer byw ynddo'n barhaol ond yn addas ar gyfer defnydd arall. Gan hynny mae angen hyblygrwydd. | nodi'n glir na ddylai unrhyw gynnig arwain at golli'r stoc dai parhaol.<br><br>Argymhelliad – dim newid |
| P18.S2 | Fiona Hampton | Adran 7 | Gwrthwynebu | Mae'r rheolau arfaethedig yn nodi mai maen prawf ar gyfer hyn yw a yw'r gosodiad gwyliau yn "hyfyw", ac os felly, ni chaniateir newid defnydd. Ni chaniateir unrhyw gais os yw 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, gan fod hyn yn cael ei ystyried fel arwydd o hyfywedd ariannol. Byddai hefyd wedi bod yn angenrheidiol marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau cyn i unrhyw ystyriaeth gael ei wneud a ellir ei newid i C5. | Dylai'r diffiniad o "hyfyw" gynnwys un ariannol ac nid yw hyn yn tybio yn achos eiddo sy'n cyflawni 182 diwrnod o osod ar hyn o bryd. Dylid dileu'r gofyniad i fod wedi marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau. | Mae hyfywedd mewn perthynas â'r rheol 182 yn ymwneud a phoblogrwydd/galw am y llety gwyliau tymor byr nid ei hyfywedd ariannol.<br><br>Pwrpas cynnwys y cyfyngiadau yw sicrhau nad yw unrhyw lety gwyliau tymor byr llwyddiannus sy'n bodloni'r galw yn cael eu colli i ddefnydd amgen. Ar ben hynny, rhaid pwysleisio y gall llety gwyliau tymor-byr (dosbarth defnydd C6) nad ydynt wedi'u cyfyngu ar gyfer y defnydd penodol trwy amod cynllunio, newid defnydd i fod yn brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) fel datblygiad a |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Credwn fod hyn yn ddim yn deg ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, mae'n broffidioldeb, nid nifer y diwrnodau a adawyd, sy'n cynrychioli a yw gosodiad gwyliau yn "viable". Ni ddylid dosbarthu gwyliau sy'n digwydd cael ei osod am 182 diwrnod ond sy'n gwneud ychydig neu ddim elw yn awtomatig fel "viable". Rydym o'r farn bod gorfod marchnata'r eiddo am 12 mis fel gosodiad gwyliau, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n anochel na fydd 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ac felly bydd costau sylweddol yn cael eu codi, yn fesur cosbi a fydd yn achosi caledi sylweddol. O ystyried nad oes unrhyw warant ar ddiwedd y broses hon y caniateir i'r eiddo drosglwyddo i C5, mae hyn yn gosod bar | | ganiateir, felly, mae defnydd arall yn bosibl heb yr ofyniad i wneud cais am ganiatâd cynllunio.<br><br>Awgrymir bod eglurder pellach yn cael ei gynnwys yn y CCA, gan fanylu ar y gofyniad i ddiogelu llety twristiaeth bresennol yn unol â'r arweiniad a ddarperir ym Mholisi Strategol PS14: Economi Ymwelwyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.<br><br><u>Argymhelliad</u> -Diwygio paragraff 7.6 o'r Canllaw Cynllunio Atodol fel a chanlyn:-<br><br>*"7.6 Mae llety gwyliau tymor byr yn darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi economi ymweld yr ardal.* ***<u>Mae maen prawf 5 o Bolisi Strategol 14: Yr Economi Ymwelwyr (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn) yn nodi y dylid atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith</u>*** |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | afrealistig ar unrhyw eiddo C6. Mewn gwirionedd, bydd angen i berchnogion eiddo C6 sy'n dymuno gwerthu buddsoddi digon o arian i dalu costau'r eiddo sy'n cael ei farchnata am 12 mis cyn gwybod a ellir ei werthu fel C5. Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn atal perchnogion gosod gwyliau C6 rhag defnyddio'r eiddo eu hunain rywfaint o'r amser (a fyddai'n ddefnydd cymysg C6/C5) neu os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu fel gosodiad gwyliau, cadw'r eiddo fel ail gartref (sef C5). Y goblygiad felly yw y bydd angen i unrhyw berchennog gosodiad gwyliau C6 werthu'r eiddo os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu. Mae llawer o eiddo gosod gwyliau yn rhai sydd | | ***annerbyniol ar y cyfleuster twristiaeth.*** *Dylid gan hynny ystyried os yw defnydd y llety gwyliau yn hyfyw ac yn cyfrannu tuag at ddiwallu'r galw."* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi bod mewn teuluoedd ers cenedlaethau. Mae gorfodi'r rhain i gael eu gwerthu pan fydd perchennog y busnes yn ymddeol yn ganlyniad gwyrdroëdig a fydd yn niweidiol i lawer o fusnesau teuluol Cymru. | | |
| P19.S1 | Ben Spier | Adran 4 | Gwrthwynebu | "Na fydd y bwriad yn arwain at golled yn y stoc tai parhaol;" a diffinnir hyn gyda "byddai unrhyw fwriad a fyddai'n arwain at golli defnydd o stoc dai parhaol (sef dosbarth defnydd C3) yn groes i faen prawf iii o Bolisi TWR 2."<br><br>Effaith hyn yw na fydd yna unrhyw siawns i newid prif gartref (C3) i ddefnydd gwyliau, ta waeth beth yw'r angen lleol a'r niferoedd o dai gwag ac ail gartrefi yn lleol, gyda'r ddau yn | Mae cael gwaharddiad llwyr yn ymddangos fel rhwystr llwyr ar gyfer disgresiwn dylai fod yna ystyriaeth yn cael ei roddi i'r angen ar gyfer llety gwyliau tu hwnt i ail gartrefi, tai gwag a thir wrth gefn - os oes yna nifer sylweddol o rain, sydd yn cael effaith llawer iawn gwaeth ar y stoc dai, ni ddylai'r ffactor yna atal y gallu i'w drosi i ddefnydd gwyliau. | Rhaid i'r canllawiau a ddarperir yn y CCA gydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae meini prawf iii Polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai unrhyw gynnig arwain at golli'r stoc dai parhaol.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfrannu llawer llai tuag at yr economi leol (ail gartrefi yn x6 llai o’i gymharu â llety gwyliau, tai gwag yn ddim byd) ac yn gor-rifo llety gwyliau gwirioneddol. Yn gyfochrog, dylai’r nifer o geisiadau cynllunio sydd heb eu hadeiladu fod yn ystyriaeth - mae gymaint o dir wrth gefn yn wirioneddol niweidiol i’r ddarpariaeth o dai yn lleol, unwaith yn rhagor cyfrannu dim byd i’r economi lleol, yn wahanol i lety gwyliau ar gyfer twristiaid. | | |
| P20.S1 | Alan Harper Smith | Adran 4 | Gwrthwynebu | *[Dim wedi ei nodi]* | Mae hwn yn datgan mewn perthynas â chynigion ar gyfer llety gwyliau newydd (C6) “Na fydd y bwriad yn arwain at golled yn y stoc tai parhaol;” a diffinnir hyn gyda “byddai unrhyw fwriad a fyddai’n arwain at golli defnydd o stoc dai parhaol (sef dosbarth defnydd C3) yn groes i faen prawf iii o Bolisi TWR 2.”. | Rhaid i'r canllawiau a ddarperir yn y CCA gydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae meini prawf iii Polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai unrhyw gynnig arwain at golli'r stoc dai parhaol.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Beth mae'r polisi hyn yn golygu yw na fydd yna byth siawns o newid defnydd prif dy (C3) i lety gwyliau, ta waeth o unrhyw anghenion lleol. Rydym yn credu y dylai fod yn le ar gyfer achosion penodol yn seiliedig ar angen lleol, yn hytrach na gwaharddiad llwyr..<br><br>Dylid fod yn bosib gwneud achos busnes a pheidio gwahardd hyn yn gyfan gwbl ymhob sefyllfa.<br><br>Pam ddylai person sydd yn prynu tŷ rhydd-daliadol gael y cyfyngiadau hyn wedi gosod arnynt, siawns fod hyn yn groes i'r cytundeb rhydd-daliadol sydd mewn cyfraith ers canrifoedd. | |
| P20.S2 | Alan Harper Smith | Adran 7 | Gwrthwynebu | Mae'r rheolau arfaethedig yn nodi mai maen prawf ar gyfer hyn yw a yw'r gosodiad gwyliau yn "hyfyw", ac | Dylai'r diffiniad o "hyfyw" gynnwys un ariannol ac nid yw hyn yn tybio yn achos eiddo sy'n cyflawni 182 diwrnod o osod ar hyn | Mae hyfywedd mewn perthynas â'r rheol 182 yn ymwneud a phoblogrwydd/galw am y llety |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | os felly, ni chaniateir newid defnydd. Ni chaniateir unrhyw gais os yw 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, gan fod hyn yn cael ei ystyried fel arwydd o hyfywedd ariannol. Byddai hefyd wedi bod yn angenrheidiol marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau cyn i unrhyw ystyriaeth gael ei wneud a ellir ei newid i C5. Credwn fod hyn yn ddim yn deg ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, mae'n broffidioldeb, nid nifer y diwrnodau a adawyd, sy'n cynrychioli a yw gosodiad gwyliau yn "viable". Ni ddylid dosbarthu gwyliau sy'n digwydd cael ei osod am 182 diwrnod ond sy'n gwneud ychydig neu ddim elw yn awtomatig fel "viable". Rydym o'r farn bod gorfod | o bryd. Dylid dileu'r gofyniad i fod wedi marchnata'r eiddo am o leiaf 12 mis fel gosodiad gwyliau. | gwyliau tymor byr nid ei hyfywedd ariannol.<br><br>Pwrpas cynnwys y cyfyngiadau yw sicrhau nad yw unrhyw lety gwyliau tymor byr llwyddiannus sy'n bodloni'r galw yn cael eu colli i ddefnydd amgen. Ar ben hynny, rhaid pwysleisio y gall llety gwyliau tymor-byr (dosbarth defnydd C6) nad ydynt wedi'u cyfyngu ar gyfer y defnydd penodol trwy amod cynllunio, newid defnydd i fod yn brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) fel datblygiad a ganiateir, felly, mae defnydd arall yn bosibl heb yr ofyniad i wneud cais am ganiatâd cynllunio.<br><br>Awgrymir bod eglurder pellach yn cael ei gynnwys yn y CCA, gan fanylu ar y gofyniad i ddiogelu llety twristiaeth bresennol yn unol â'r arweiniad a ddarperir ym Mholisi Strategol PS14: Economi Ymwelwyr y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | marchnata'r eiddo am 12 mis fel gosodiad gwyliau, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n anochel na fydd 182 diwrnod o osod yn cael ei gyflawni ac felly bydd costau sylweddol yn cael eu codi, yn fesur cosbi a fydd yn achosi caledi sylweddol. O ystyried nad oes unrhyw warant ar ddiwedd y broses hon y caniateir i'r eiddo drosglwyddo i C5, mae hyn yn gosod bar afrealistig ar unrhyw eiddo C6. Mewn gwirionedd, bydd angen i berchnogion eiddo C6 sy'n dymuno gwerthu buddsoddi digon o arian i dalu costau'r eiddo sy'n cael ei farchnata am 12 mis cyn gwybod a ellir ei werthu fel C5. Mae'r cyfyngiad hwn hefyd yn atal perchnogion gosod gwyliau C6 rhag defnyddio'r eiddo eu | | Argymhelliad -Diwygio paragraff 7.6 o'r Canllaw Cynllunio Atodol fel a chanlyn:-<br><br>*"7.6 Mae llety gwyliau tymor byr yn darparu gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi economi ymweld yr ardal.* ***Mae maen prawf 5 o Bolisi Strategol 14: Yr Economi Ymwelwyr (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn) yn nodi y dylid atal datblygiadau a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar y cyfleuster twristiaeth.*** *Dylid gan hynny ystyried os yw defnydd y llety gwyliau yn hyfyw ac yn cyfrannu tuag at ddiwallu'r galw."* |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hunain rywfaint o'r amser (a fyddai'n ddefnydd cymysg C6/C5) neu os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu fel gosodiad gwyliau, cadw'r eiddo fel ail gartref (sef C5). Y goblygiad felly yw y bydd angen i unrhyw berchennog gosodiad gwyliau C6 werthu'r eiddo os ydynt yn rhoi'r gorau i fasnachu. Mae llawer o eiddo gosod gwyliau yn rhai sydd wedi bod mewn teuluoedd ers cenedlaethau. Mae gorfodi'r rhain i gael eu gwerthu pan fydd perchennog y busnes yn ymddeol yn ganlyniad gwyrdroëdig a fydd yn niweidiol i lawer o fusnesau teuluol Cymru. | | |
| P21.S1 | Goronwy Owen | Para 6.11 | Gwrthwynebu | Mae'r ffigwr 15% a ddefnyddir i bennu'r uchafswm ar gyfer ceisiadau newid | Dileu'r paragraff olaf yn 6.11 a’i amnewid gyda - "O ganlyniad, ni ddylid rhoi ystyriaeth ffafriol i | Mae’r arweiniad a gynhwysir yn y rhan yma yn ymwneud a newid defnydd C3 i ddefnydd |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnydd o ddefnydd dosbarth C3 i ddefnydd dosbarth C6 yn ffigwr % mympwyol nad yw wedi'i gadarnhau'n ddigonol. | geisiadau newid defnydd o brif breswylfa (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd ail gartref (defnydd dosbarth C5 neu ddefnydd cymysg) pan fo'r ddarpariaeth gyfunol bresennol o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn ardal y Gymuned/Tref/Cyngor Dinas yn fwy na 25% o'r stoc dai. Dylid defnyddio gwybodaeth am y Dreth Gyngor (premiwm ail gartref a chyfraddau busnes annomestig hunanarlwyo) fel ffynhonnell i gael y wybodaeth hon, gan mai dyma'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf cywir a chyflawn sydd ar gael." | C5, nid C6 fel cyfeirir ato yn y sylw.<br><br>Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno sydd yn cyfiawnhau pam ddylid cynyddu'r trothwy i 25%. Mae'r trothwy wedi cael ei bennu yn 15% er mwyn cael cysondeb gyda'r CCA (Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid) presennol.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P22.S1 | Arfon Hughes | | Cefnogi | *[Dim wedi ei nodi]* | *[Dim wedi ei nodi]* | Nodi'r sylw o gefnogaeth.<br><br><u>Argymhelliad</u> - Dim newid |
| P23.S1 | Nicola Williams (Tom Parry & Co) | Adran 6 | Sylw cyffredinol | Yn bresennol nid oes yna unrhyw arweiniad o gwbl ar gyfer unigolion proffesiynol eiddo mewn perthynas â | *[Dim wedi ei nodi]* | Bydd dosbarth defnydd yr eiddo yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohono. Felly, er bod buddiolwyr yr ystâd bellach yn berchen ar ddwy annedd, ni |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o'r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o'r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau'r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dosbarthiadau defnydd ac eiddo a etifeddir. Enghraifft sydd gennym yw a thŷ a etifeddir yn cael ei werthu. Arferai fod yn brif fan preswyl fodd bynnag bellach wedi ei etifeddu gan ddisgynyddion y perchennog, pa ddosbarth defnydd ydyw? Yn amlwg mae bellach yn ail gartref i'r perchnogion newydd ond nid oedd i'r perchennog blaenorol. Ydi hyn yn golygu y byddai rhaid i eiddo a etifeddir cael eu gwerthu gan na fyddai'r Cyngor yn caniatáu i'r sawl a'i hetifeddir i'w gadw? Mae angen eglurder ynglŷn â hyn. | | fyddai angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio'r eiddo fel ail gartref oni bai bod y defnydd o'r eiddo yn cael ei wneud at y diben penodol hwnnw ac yn unol â'r diffiniad o'r Dosbarth Defnydd.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Dim newid |
| P23.S2 | Nicola Williams (Tom Parry & Co) | Para 1.2.7 | Sylw cyffredinol | Oes angen gwneud cais am hyn ymhob achos? Mae gennym gleientiaid sydd â blynyddoedd a blynyddoedd o | *[Dim wedi ei nodi]* | Mater i'r unigolyn ydyw os dymunem gyflwyno cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon, nid oes unrhyw anghenraid arnynt wneud hynny. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddatganiadau treth gyngor sy'n cyfeirio at eiddo fel llety gwyliau tymor byr ac yn cael ei drethu yn unol â hynny. Ydych chi nawr yn dweud nad yw hyn yn ddigon?? Beth yw'r amserlenni / meini prawf / ffioedd ar gyfer derbyn ardystiad o'r fath?<br><br>Mae angen cadarnhau’r pethau hyn ar frys. | | Argymhelliad – dim newid |
| P24.S1 | Gareth Thomas (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Cyffredinol | Sylw Cyffredinol | Lle mae’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod y safle cais mewn perygl o lifogydd ac yn disgyn i Barth 2, 3 neu Barth Amddiffynedig, byddem yn argymell bod ACLl cyfyngedig addas yn cael ei gyflwyno i gefnogi unrhyw gais cynllunio ar gyfer y datblygiadau | *[Dim wedi ei nodi]* | Ni ystyrir yn briodol cynnwys y lefel o fanylder hyn o fewn y CCA. Bydd yn ofynnol amlygu’r gofynion hyn wrth ystyried ac asesu’r cais cynllunio yn yr un modd a chyfyngiadau eraill (e.e. hanesyddol ac amgylcheddol). Pwrpas y CCA yw darparu arweiniad o ran egwyddor y defnydd yn unol â’r arweiniad polisi.<br><br>Argymhelliad – dim newid. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arfaethedig hyn. Er efallai na fydd unrhyw newid sylweddol i'r anheddau, gall yr anheddau gael eu meddiannu gan bobl nad ydynt efallai yn gyfarwydd â'r ardal ac ati. Mae adran 11.4 o'r NCT15 newydd, 31 Mawrth 2025 yn nodi bod "Ceir gofynion y bydd yn rhaid eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddatblygiad y caniateir ei leoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd." Un o'r gofynion hyn yw bod "Mae'r meddianwyr yn ymwybodol o'r perygl llifogydd". Efallai na fydd hyn yn wir gyda chartrefi gwyliau.<br>Gall pob annedd fod â'i risg llifogydd penodol ei hun, a bydd rhai eiddo yn agored i lifogydd mwy | | |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Rhan o’r CCA | Natur y sylw | Crynodeb o’r sylwadau | Diwygiadau a geisir | Sylwadau’r Swyddog ac argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | aml / difrifol oherwydd y lleoliadau golygfaol. Felly, rydym yn argymell bod ACLl cyfyngedig yn cael ei gynnal a allai fod â rhyw fath o gynllun gweithredu llifogydd ar gael (e.e. mewn pecynnau croeso ac ati) fel y gellir cyfathrebu'r perygl llifogydd i'r rhai sy'n meddiannu'r eiddo. Byddem hefyd yn tynnu eich sylw at NCT15 newydd, paragraff 3.5 sy'n nodi "Dylai awdurdodau cynllunio ystyried, yn seiliedig ar yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, a fydd angen polisïau cynllunio lleol penodol er mwyn rheoli’r risgiau hyn. | | |

**Atodiad 2: Ymatebion a dderbyniwyd ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol**

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol? | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|
| P4.DS1 | Glenis Bisson | Ddim yn unol â pholisi y llywodraeth ganolog. | Mae diffyg gwybodaeth wedi'i darparu mewn perthynas â sut nad yw'r Datganiad Sgrinio Amgylcheddol Strategol yn cyd-fynd â pholisi y llywodraeth ganolog. Oherwydd diffyg gwybodaeth, nid yw'n bosibl egluro ymhellach bod y Datganiad Sgrinio yn cydymffurfio â'r gofyniad.<br><br>Argymhelliad – dim newid |
| P10.DS1 | Katie Proctor | Mae'r datganiad yn cynnwys y darn canlynol; "Mae'r CCA yn cwmpasu ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaeth breswyl yr ardal."<br>Mae Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn gyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio cyfan yn hytrach na defnyddio mesurau o'r fath mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu lawer mwy, er enghraifft, lle mae nifer uchel o ail gartrefi neu osodiadau gwyliau. Mae'r weithred hon, sydd heb ffocws neu'n newid pwyslais, yn arwain at effeithiau sy'n wahanol yn dibynnu ar leoliad.<br>Gallai'r hyn fedrai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi. Felly, rydym yn anghytuno â'r datganiad y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth breswyl. | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid cylch gwaith Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>Argymhelliad – dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol? | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|
| P14.DS1 | Emyr Glyn Williams | Mae Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio cyfan yn hytrach na defnyddio mesurau o'r fath mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu, er enghraifft, lle mae nifer uchel o ail gartrefi neu osodiadau gwyliau. Mae'r weithred hon, sydd heb ffocws neu'n newid pwyslais, yn arwain at effeithiau sy'n wahanol yn dibynnu ar leoliad.<br>Gallai'r hyn fedrai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi. Felly, rydym yn anghytuno â'r datganiad y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth breswyl. | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid maes Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P15.DS1 | Gareth Lloyd | Sgrapiwch o. | Nid oes unrhyw wybodaeth/cyfiawnhad manwl wedi'i ddarparu ynghylch pam y dylid dileu'r asesiad Effaith Amgylcheddol Strategol, sy'n ei gwneud hi'n anodd ymateb i'r cais a awgrymwyd.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P16.DS1 | Janine Dow | Mae Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio cyfan yn hytrach na defnyddio mesurau o'r fath mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu (er enghraifft) lle mae nifer uchel o ail gartrefi neu osodiadau gwyliau. Mae'r weithred hon, sydd heb ffocws neu sy'n newid pwyslais, yn arwain at effeithiau sy'n wahanol yn dibynnu ar y lleoliad. Gallai'r hyn fedrai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid cylch gwaith Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol? | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|
| | | arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi. Felly, rydym yn anghytuno â'r datganiad y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth breswyl. | |
| P18.DS1 | Fiona Hampton Mathews | Mae'r datganiad yn cynnwys y canlynol:<br>2.5 Ehangder a graddfa ofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio).  "Mae'r CCA yn cwmpasu ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaeth breswyl yr ardal." Mae Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn gyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio cyfan yn hytrach na defnyddio mesurau o'r fath mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu lawer mwy (er enghraifft) lle mae nifer uchel o ail gartrefi neu osodiadau gwyliau. Mae'r weithred hon, sydd heb ffocws neu sy'n newid pwyslais, yn arwain at effeithiau sy'n wahanol yn dibynnu ar y lleoliad. Gallai'r hyn fedrai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi. Felly, rydym yn anghytuno â'r datganiad y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth breswyl. | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid cylch gwaith Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |

| **Rhif cyfeirnod** | **Enw** | **A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol?** | **Ymateb y swyddogion** |
|---|---|---|---|
| P19.DS1 | Ben Spier | Mae'r datganiad yn cynnwys y canlynol:<br>"2.5 Ehangder a graddfa ofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio).  "Mae'r CCA yn cwmpasu ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaeth breswyl yr ardal."<br><br>Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cwmpasu ardal yr awdurdod cynllunio cyfan, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ardaloedd penodol sydd â phwysau tai. Mae'r hyn a allai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd yn arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi. Felly rwy'n anghytuno â'r datganiad hwn. | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid cylch gwaith Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P20.DS1 | Alan Harper Smith | Mae'r datganiad yn cynnwys y canlynol:<br>2.5 Ehangder a graddfa ofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio).  "Mae'r CCA yn cwmpasu ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaeth breswyl yr ardal."<br><br>Mae Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn gyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio cyfan yn hytrach na defnyddio mesurau o'r fath mewn ardaloedd sydd wedi'u targedu (er enghraifft) lle mae nifer uchel o ail gartrefi neu osodiadau gwyliau. Mae'r weithred hon, sydd heb ffocws neu sy'n newid pwyslais, yn arwain at effeithiau sy'n wahanol yn dibynnu ar y | Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar yr ystyriaethau polisi cynllunio lleol ar ôl gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nid yw'n bosibl i'r CCA newid cylch gwaith Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol? | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|
| | | lleoliad.<br>Gallai'r hyn fedrai fod yn fesur priodol ar gyfer rhai ardaloedd arwain at effeithiau niweidiol mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn perthynas â phrisiau tai mewn ardaloedd lle nad oes pwysau mewn perthynas â niferoedd yr ail gartrefi.<br>Felly, rydym yn anghytuno â'r datganiad y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar y boblogaeth breswyl. | |

**Atodiad 3: Ymatebion a dderbyniwyd ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig**

| **Rhif cyfeirnod** | **Enw** | **A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig?** | **Ymateb y swyddog** |
|---|---|---|---|
| P1.AE1 | Staphanie O'Neil | Rwy'n credu y bu'r cyngor yn rhy gyflym i weithredu Erthygl 4 gyda rhy ychydig o ffeithiau a ffigurau ar gael iddynt. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn ardal ddaearyddol rhy eang, mae wedi niweidio cyfoeth yr ardal yn ddifrifol a bydd yn rhwystro ailwerthu eiddo, taliadau treth gyngor is, ac yn sicrhau y bydd angen i'r genhedlaeth hŷn sy'n barod ar gyfer cartrefi gofal ddibynnu ar gymorth gan y cyngor gan nad yw eu heiddo yn werth yr hyn yr oeddent wedi gobeithio amdano gydag arian cyfyngedig ar gael i helpu gyda thaliadau am ofal yn ddiweddarach yn eu bywydau. | Nid yw'r sylw yn ymwneud â'r CCA.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P10.AE1 | Katie Proctor | Mae'r asesiad effaith yn cynnwys y datganiad "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael ei phrisio allan o'r farchnad dai". Mae hyn yn rhan o'r cyfiawnhad dros gyfarwyddiadau Erthygl 4. Fodd bynnag, mae ystadegau Llywodraeth Cymru (https://senedd.wales/media/vkxlz4ky/gwyneddenglish.pdf) yn nodi "Mae tua 49,200 o aelwydydd yng Ngwynedd, 66.6% ohonynt yn eiddo i berchnogion." Mae'r 2 ddatganiad hyn yn groes i'w gilydd. Pa un sy'n wir? Stopiwch addasu'r ffigurau er eich budd eich hun! | Mae nifer y bobl sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yn seiliedig ar incwm a phrisiau tai cyfartalog. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Diwygio'r geiriad i roi eglurhad pellach ynghylch sut mae % yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad wedi'i gyfrifo.<br><br>"Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai (***<u>mae'r ffigur yn seiliedig ar incwm cyfartalog aelwydydd a phris tŷ cyfartalog).</u>*** |
| P11.AE1 | Cyngor Tref Abermaw | Mae effeithiau negyddol Erthygl 4 eisoes yn cael eu gweld yn y ffaith na all pobl leol werthu eu tai i symud (boed hynny'n symud i dŷ mwy, | Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig yn seiliedig |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig? | Ymateb y swyddog |
|---|---|---|---|
| | | i dŷ llai neu symud i ffwrdd). Mae'r gallu i brynu tai hefyd yn dibynnu ar gael swydd gydag incwm addas. Nid yw'r diffyg prynwyr yn adlewyrchiad ar bris y tŷ, ond ar allu'r prynwr i gael morgais. Nid yw morgeisi ar gael oherwydd diffyg swyddi da.<br>Nid yw'r golled ar werth ar y stoc dai sy'n eiddo i bobl leol wedi'i gyfrifo na'i ystyried yn yr asesiad effaith hwn. Mae paragraff 4.2 yn honni nad yw'r effaith hon yn sylweddol, ni ellir gwneud y datganiad hwnnw heb gyfrif y gost i drigolion lleol.<br>Mae adran 4.4 yn honni bod ymdrechion wedi'u gwneud i liniaru'r effeithiau negyddol – beth yw'r ymdrechion hynny? | ar y wybodaeth fwyaf gyfredol sydd ar gael a bydd yn cael ei diwygio yn unol â hynny. Bydd unrhyw effaith a nodir yn dilyn y cyfnod ymgynghori yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen.<br><br>Nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn a diriaethol wedi'i darparu sy'n awgrymu sut mae'r darpar CCA yn effeithio ar brisiau tai.<br><br>Argymhelliad – dim newid |
| P12.AE1 | Deborah Lumley | Nid oes unrhyw ystyriaeth wedi ei rhoi i bobl leol | Mae'r asesiad yn cydnabod y bydd cyflwyno'r CCA yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar bawb, sydd felly yn anochel yn cynnwys pobl leol.<br><br>Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig yn seiliedig ar y wybodaeth fwyaf gyfredol sydd ar gael a bydd yn cael ei diwygio yn unol â hynny. Bydd unrhyw effaith a nodir yn dilyn y cyfnod ymgynghori yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen.<br><br>Argymhelliad – dim newid |
| P14.AE1 | Emyr Glyn Williams | Nid yw'r polisi hwn, sydd â rhai pwyntiau da, yn cydnabod mai'r prif reswm pam fo pobl ddigartref yng Ngwynedd yw bod y cyngor a'r gwleidyddion cysylltiedig wedi methu â bodloni'r angen am dai fforddiadwy dros y 50 mlynedd diwethaf. Mae gwerthu tai cyngor a pheidio â'u hailadeiladu yn sicr o achosi problemau fel y gall unrhyw | Nodir yr hyn a gyflwynwyd, fodd bynnag, mae'n methu â mynd i'r afael â'r CCA yn uniongyrchol. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig? | Ymateb y swyddog |
|---|---|---|---|
| | | un sydd ag unrhyw wybodaeth dystio. Dywedodd AS Meirion Dwyfor fod pobl yn ei hetholaeth yn gadael yr ardal i ddod o hyd i dai rhatach ond pan gafodd ei herio methodd ag enwi ardaloedd y tai rhatach hynny. Yr unig ardaloedd o dai rhatach fydd mewn ardaloedd sydd wedi gweld dirywiad economaidd gyda chymunedau mawr o fewnfudwyr yn aml. Y gwir amdani yw bod pobl yn gadael i chwilio am i waith oherwydd bod y gwleidyddion hyn wedi methu â dod â gwaith i mewn i Wynedd. Bydd dinistrio'r diwydiant twristiaeth yn gwneud pethau'n waeth. Hefyd, mae'n amlwg i mi, lle mae'r polisi hwn yn llwyddo i yw gyrru allan pobl C5/6, maent yn eithaf aml yn cael eu disodli gan bobl C3 Saesneg sy'n ymddeol i'r ardal. | Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig yn seiliedig ar y wybodaeth fwyaf gyfredol sydd ar gael a bydd yn cael ei diwygio yn unol â hynny. Bydd unrhyw effaith a nodir yn dilyn y cyfnod ymgynghori yn cael ei adlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P15.AE1 | Gareth Lloyd | Ei sgrapio | Nid oes unrhyw wybodaeth/cyfiawnhad manwl wedi'i ddarparu i gefnogi'r datganiad.<br><br><u>Argymhelliad</u> – dim newid |
| P16.AE1 | Janine Dow | Mae'r asesiad effaith yn cynnwys y datganiad "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael ei phrisio allan o'r farchnad dai". Mae hyn yn rhan o'r cyfiawnhad dros Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Fodd bynnag, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi (https://senedd.wales/media/vkxlz4ky/gwynedd-english.pdf):<br>"Mae tua 49,200 o aelwydydd yng Ngwynedd, 66.6% ohonynt yn eiddo ble mae'r perchennog yn byw ynddynt."<br>Mae'r ddau ddatganiad yma yn ymddangos yn anghydnaws. | Mae nifer y bobl sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yn seiliedig ar incwm a phrisiau tai cyfartalog. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Diwygio'r geiriad i roi eglurhad pellach ynghylch sut mae % yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad wedi'i gyfrifo.<br><br>"Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai (***<u>mae'r ffigur yn seiliedig ar</u>*** |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig? | Ymateb y swyddog |
|---|---|---|---|
| | | | ***incwm cyfartalog aelwydydd a phris tŷ cyfartalog***). |
| P18.AE1 | Fiona Hampton Mathews | Mae'r asesiad effaith yn cynnwys y datganiad "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael ei phrisio allan o'r farchnad dai". Mae hyn yn rhan o'r cyfiawnhad dros Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Fodd bynnag, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi (https://senedd.wales/media/vkxlz4ky/gwynedd-english.pdf): "Mae tua 49,200 o aelwydydd yng Ngwynedd, 66.6% ohonynt yn eiddo ble mae'r perchennog y byw ynddynt."<br>Mae'r ddau ddatganiad yma yn ymddangos yn anghydnaws | Mae nifer y bobl sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yn seiliedig ar incwm a phrisiau tai cyfartalog. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael.<br><br>Argymhelliad – Diwygio'r geiriad i roi eglurhad pellach ynghylch sut mae % yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad wedi'i gyfrifo.<br><br>"Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai (***mae'r ffigur yn seiliedig ar incwm cyfartalog aelwydydd a phris tŷ cyfartalog***). |
| P19.AE1 | Ben Spier | Mae'n nodi: "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael ei brisio allan o'r farchnad dai."<br>Ond, yn ôl Adolygiad Llety Gwynedd https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2023-09/Cynllun%20EYCGE%20Saesneg_0.pdf<br>Yng Ngwynedd mae:<br>Nifer y cartrefi 61,645<br>Nifer yr ail gartrefi 4,873<br>Nifer yr unedau Gwyliau hunanarlwyo (unedau annomestig) 1,976.<br>Os yw'r ystadegyn o 65% yn gywir, ni all fod o ganlyniad i osodiadau | Mae nifer y bobl sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yn seiliedig ar incwm a phrisiau tai cyfartalog. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael.<br><br>Argymhelliad – Diwygio'r geiriad i roi eglurhad pellach ynghylch sut mae % yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad wedi'i gyfrifo. |

| **Rhif cyfeirnod** | **Enw** | **A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig?** | **Ymateb y swyddog** |
|---|---|---|---|
| | | gwyliau (sy'n dod â gwariant ymwelwyr i Wynedd) – dylai'r targed fod yr ail gartrefi a'r cartrefi gwag a'r caniatâdau cynllunio i dai sydd heb eu hadeiladu. | "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai (***<u>mae'r ffigur yn seiliedig ar incwm cyfartalog aelwydydd a phris tŷ cyfartalog).</u>*** |
| P20.AE1 | Alan Harper Smith | Mae'r asesiad effaith yn cynnwys y datganiad "Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai". Mae hyn yn rhan o'r cyfiawnhad dros Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Fodd bynnag, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi (https://senedd.wales/media/vkxlz4ky/gwynedd english.pdf):<br>"Mae tua 49,200 o aelwydydd yng Ngwynedd, 66.6% ohonynt yn eiddo ble mae'r perchennog yn byw ynddynt."<br>Mae'r ddau ddatganiad yma yn ymddangos yn anghydnaws. | Mae nifer y bobl sydd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yn seiliedig ar incwm a phrisiau tai cyfartalog. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Diwygio'r geiriad i roi eglurhad pellach ynghylch sut mae % yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad wedi'i gyfrifo.<br><br>"Ar gyfartaledd, mae 65% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai (***<u>mae'r ffigur yn seiliedig ar incwm cyfartalog aelwydydd a phris tŷ cyfartalog</u>***). |
| P20.AE2 | Alan Harper Smith | Ar gyfer achos penodol gosodiadau gwyliau, mae'r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau a osodir ar ddefnydd sy'n dod ar adeg pan fo'r sector yn wynebu heriau ariannol lluosog o nifer fawr o newidiadau deddfwriaethol diweddar (y rheol 182 diwrnod, newidiadau trethiant FHL, codiadau ardrethi busnes, gofynion EPC, rheoliadau tân, rheoliadau gwastraff, cynnydd NI cyflogwyr, codiadau | Mae'r pwynt yn cael ei nodi.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Diwygio adran 3.1 o'r Asesiad Effaith Integredig (Cymraeg) i adlewyrchu'r sylwad a dderbyniwyd. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr Asesiad Effaith Integredig? | Ymateb y swyddog |
|---|---|---|---|
| | | isafswm cyflog) yn arwain at nifer fawr o fusnesau o'r fath yn wynebu cau. Gan fod cyfran fawr iawn o fusnesau gosod gwyliau yng Ngwynedd yn deuluol ac yn siarad Cymraeg, mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg oherwydd pe bai'r busnes yn cau, yna mae hyn yn peryglu bod y perchnogion (a'u teuluoedd) yn gorfod adleoli ar gyfer gwaith. | ***“Negyddol***<br><br>***Mae'n bosibl y gallai siaradwyr Cymraeg fod yn ceisio cyfle i ddefnyddio tŷ annedd at ddibenion gwyliau (unedau gwyliau tymor byr neu ail gartrefi), gallai'r paramedrau sydd wedi'u gosod o fewn y CCA wahardd y gallu i wneud hynny gan olygu y bydd y siaradwyr Cymraeg yn chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill, a fyddai'n anochel yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg."*** |

**Atodiad 4: Ymatebion a dderbyniwyd ar effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg, y cyfle i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned**

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| P1.NC1 | Stephanie O'Neil | Effaith negyddol | Rwyf yn siaradwr Cymraeg ers 27 blynedd ac nid wyf bellach yn defnyddio'r iaith a byddai'n well gennyf adael yr ardal oherwydd y mesurau draconaidd sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor. Dydw i ddim eisiau byw mewn cymdeithas anemocrataidd, un lle mae pobl eraill yn dweud wrthyf beth i'w wneud. | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg tystiolaeth wedi'i darparu ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Dim newid |
| P2.NC1 | John Moss | Niwtral | Os yw'r Gymraeg i oroesi, ni ddylid ei chefnogi'n artiffisial drwy ei maniwpiwleiddio. | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Dim newid |
| P3.NC1 | Stuart Rudlin | Effaith negyddol gyfyngedig | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Dim newid |
| P4.NC1 | Glenis Bisson | Effaith negyddol | Mae mwy o bobl bellach yn cael eu hannog i adael yr ardal wrth i'r Cyngor fynnu mwy o reolaeth ar eu bywydau. Mae'r ieuenctid yn gadael i ddod o hyd i | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | | | swyddi da, nid oherwydd tai. Bydd mwy o bobl wedi ymddeol yn dod i'r ardal gan fod y prisiau'n rhad, gan felly ddisbyddu'r iaith ymhellach. | Argymhelliad – Dim newid |
| P5.NC1 | Susan Roberts | Niwtral | Tra bod Cymru yn rhoi blaenoriaeth ar restrau tai i gyn-droseddwyr ac ymfudwyr anghyfreithlon, ni fydd byth digon o gartrefi i bobl leol. Mae cenedl noddfa yn un peth teilwng, mae tir dympio yn gyfnewid am gymhellion arian parod yn rhywbeth arall. | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Darparwyd diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P25.NC1 | Elaine Bamber | Effaith negyddol | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P26.NC1 | Anwen Jones | Effaith gadarnhaol gyfyngedig | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P6.NC1 | James Woodcock | Effaith gadarnhaol | Os yw'r CCA yn cefnogi cynigion teg i drosi adeiladau traddodiadol yn dai fforddiadwy i bobl leol hyd yn oed yng nghefn gwlad. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl leol sy'n siarad Cymraeg i fyw yn Nyffryn Peris. | Nid yw'r newid polisi sy'n cael ei geisio yn bosibl trwy'r CCA hwn. Rhaid i'r CCA gydymffurfio â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P7.NC1 | Alan Parry | Effaith gadarnhaol | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb. |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Argymhelliad – Dim newid |
| P10.NC1 | Katie Proctor | Effaith negyddol gyfyngedig | Ar gyfer gosodiadau gwyliau, mae'r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau y bwriedir eu defnyddio sy'n dod ar adeg pan fo'r sector yn wynebu heriau ariannol lluosog o nifer fawr o newidiadau deddfwriaethol diweddar (rheol 182 diwrnod, newidiadau trethiant FHL, codiadau cyfraddau busnes, gofynion EPC, rheoliadau tân, rheoliadau gwastraff, cynnydd YG i gyflogwyr, codiadau isafswm cyflog) yn arwain at nifer fawr o fusnesau o'r fath yn wynebu cau. Gan fod cyfran fawr iawn o fusnesau gosod gwyliau yng Ngwynedd yn rhai teuluol ac yn siarad Cymraeg, mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg. Os yw'r busnes yn cau, yna mae perygl y bydd y perchnogion (a'u teuluoedd) yn gorfod adleoli. | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Darparwyd diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. Mae'n angenrheidiol i'r CCA gydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y cynllun datblygu.<br><br>Drwy gydol y broses o baratoi'r CCA cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P11.NC1 | Heather Brown (Cyngor | Effaith negyddol | Naws gyffredinol y CCA yw mai'r Gymraeg yw prif amcan pob penderfyniad. Ni ellir cefnogi'r Gymraeg | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu effaith polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor ar gyfleoedd i |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | Cymuned Abermaw) | | drwy reolaeth gynllunio yn unig, a dylai nod o gefnogi'r gymuned leol gyda swyddi o ansawdd uchel a chyfleoedd fod yn flaenoriaeth gan fod hyn yn hanfodol i alluogi'r Gymraeg i gael ei chefnogi. Heb economi fywiog a chyfleoedd gwaith da, bydd angen i siaradwyr Cymraeg lleol adael yr ardal. | ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P12.NC1 | Deborah Lumley | Effaith negyddol | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P13.NC1 | Alan Williams | Effaith gadarnhaol | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P14.NC1 | Emyr Glyn Williams | Effaith negyddol | Ar gyfer achos penodol gosodiadau gwyliau, mae’r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau a osodir ar ddefnydd sy'n dod ar adeg pan fo'r sector yn wynebu heriau ariannol lluosog o nifer fawr o newidiadau deddfwriaethol diweddar (rheol 182 diwrnod, newidiadau trethiant FHL, codiadau ardrethi busnes, gofynion EPC, rheoliadau tân, rheoliadau gwastraff, cynnydd yn YG | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. Mae'n angenrheidiol fod y CCA yn cydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y cynllun datblygu.<br><br>Drwy gydol y broses o baratoi'r CCA cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyflogwyr, codiadau isafswm cyflog) yn arwain at nifer fawr o fusnesau o'r fath yn wynebu cau. Gan fod cyfran fawr iawn o fusnesau gosod gwyliau yng Ngwynedd yn rhai teuluol ac yn siarad Cymraeg, mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg oherwydd pe bai'r busnes yn cau, yna mae perygl bod y perchnogion (a'u teuluoedd) yn gorfod adleoli ar gyfer gwaith.<br>Mae fy nhŷ yn gymysg o C5/C6 sy'n golygu, yn ystod misoedd y gaeaf, pan na allwn gael pobl i aros (dwi'n gwybod nad yw Cyngor Gwynedd fel cefnogwr 182 diwrnod yn credu hynny) mae ein teulu yn gallu dod i lawr a chymysgu â'r gymuned, ein ffrindiau a'n teulu sy'n siarad Cymraeg. Mae'r tai sydd wedi cael eu gwerthu yn ddiweddar ger ein cartref i gyd wedi cael eu prynu gan bobl sy'n siarad Saesneg ar ôl symud i'r ardal yn llawn amser. Mae polisi Cyngor Gwynedd i adeiladu tai fforddiadwy ym mhentrefi Pen Llŷn a'u llenwi â phobl sy'n siarad Saesneg yn | cael ei ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | | | gwneud llawer mwy o niwed i'r Gymraeg yn yr ardal. | |
| P15.NC1 | Gareth Lloyd | Effaith negyddol | Siarad Cymraeg mewn ysgolion. | Mae'r ymateb yn cael ei nodi, fodd bynnag, nid yw'n gysylltiedig â'r CCA.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P16.NC1 | Janine Dow | Effaith negyddol | Ar gyfer achos penodol gosodiadau gwyliau, mae'r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau a osodir ar ddefnydd sy'n dod ar adeg pan fo'r sector yn wynebu heriau ariannol lluosog o nifer fawr o newidiadau deddfwriaethol diweddar (rheol 182 diwrnod, newidiadau trethiant FHL, codiadau ardrethi busnes, gofynion EPC, rheoliadau tân, rheoliadau gwastraff, cynnydd yn YG cyflogwyr, codiadau isafswm cyflog) yn arwain at nifer fawr o fusnesau o'r fath yn wynebu cau. Gan fod cyfran fawr iawn o fusnesau gwyliau yng Ngwynedd yn rhai teuluol ac yn Gymraeg, mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg oherwydd pe bai'r busnes yn cau, yna mae hyn yn peryglu bod y | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. Mae'n angenrheidiol fod y CCA yn cydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y cynllun datblygu.<br><br>Drwy gydol y broses o baratoi'r CCA cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| | | | perchnogion (a'u teuluoedd) yn gorfod adleoli am waith | |
| P17.NC1 | Dylan Bryn Roberts | Effaith gadarnhaol | *[Dim wedi'i nodi]* | Noder yr ymateb.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |
| P18.NC1 | Fiona Hampton-Matthews | Effaith negyddol | Ar gyfer achos penodol gosodiadau gwyliau, mae'r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau a osodir ar ddefnydd sy'n dod ar adeg pan fo'r sector yn wynebu heriau ariannol lluosog o nifer fawr o newidiadau deddfwriaethol diweddar (rheol 182 diwrnod, newidiadau trethiant FHL, codiadau ardrethi busnes, gofynion EPC, rheoliadau tân, rheoliadau gwastraff, cynnydd yn YG cyflogwyr, codiadau isafswm cyflog) yn arwain at nifer fawr o fusnesau o'r fath yn wynebu cau. Gan fod cyfran fawr iawn o fusnesau gwyliau yng Ngwynedd yn rhai teuluol ac yn Gymraeg, mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg oherwydd pe bai'r busnes yn cau, yna mae hyn yn peryglu bod y perchnogion (a'u teuluoedd) yn gorfod adleoli am waith | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. Mae'n angenrheidiol fod y CCA yn cydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y cynllun datblygu.<br><br>Drwy gydol y broses o baratoi'r CCA cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Argymhelliad – Dim newid |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
| P19.NC1 | Ben Spier | Effaith negyddol | Mae 51% o'r perchnogion eiddo hunanarlwyo sydd wedi rhestru gyda ni yn byw o fewn 5 milltir i'r eiddo ac mae pob un o'n perchnogion yn rhestru 1.3 eiddo yr un ar gyfartaledd. Maent yn wynebu pwysau lluosog (trothwy 182 diwrnod, gofynion EPC, cynnydd NIC, cyfundrefn FHL wedi'i diddymu, premiymau'r dreth gyngor, ardoll bosibl, cynllun trwyddedu ac ati). Mae cyfran fawr iawn o'r gosodiadau gwyliau yng Ngwynedd yn cael eu rhedeg gan deuluoedd sy'n siarad Cymraeg ac felly mae cau busnesau yn fygythiad sylweddol i'r Gymraeg oherwydd pe bai'r busnes yn cau, mae'n rhaid i'r perchennog a'r teulu symud ar gyfer gwaith. Byddai colli'r ymwelwyr i'w huned wyliau sydd bellach ar goll hefyd yn golygu eu bod yn gwario mewn busnesau lletygarwch lleol eraill. | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Darparwyd diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws. Mae'n angen i'r CCA gydymffurfio â'r polisïau fel y'u cynhwysir yn y cynllun datblygu.<br><br>Drwy gydol y broses o baratoi'r CCA cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br><u>Argymhelliad</u> – Dim newid |
| P20.NC1 | Alan Harper-Smith | Effaith negyddol | Ar gyfer yr achos penodol o osodiadau gwyliau, mae’r pwysau sy'n cael ei roi ar berchnogion gan y cyfyngiadau a orfodwyd ar ddefnydd sy'n dod ar adeg | Mae'r sylw yn cael ei nodi. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai mabwysiadu'r CCA yn effeithio ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r |

| Rhif cyfeirnod | Enw | Yn eich barn chi, beth fydd effaith cyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg, y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws o fewn y gymuned? | A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sy'n cael ei gynnig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol. | Ymateb y swyddogion |
|---|---|---|---|---|
